# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION
## IONAWR 2014

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 22 Ionawr |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Ysgol Rhostryfan |
| **AELODAU'N BRESENNOL** | Elin Evans (cad), Gwilym L.Williams, Elwyn Jones, Meurig Williams, Neal Williams, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans, Rhys Owen, Jason Hunt |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Bethan Williams, Clerc |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Cydymdeimlwyd a'r clerc a'r teulu | |
| 2. | **Ymddiheuriadau** | |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Materion Cynllunio – Llwyn, Dinas | |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion**<br>Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gywir | |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br>a. NE – gwair wedi'i dorri a'i adael ar y ffordd ac wedyn yn cael ei olchi i'r draeniau<br>b. MiW – ysgol Rhosgadfan yn cwyno fod baw cwn wedi mynd allan o bob rheswm. Clerc i sgwennu i'r warden.<br>c. RhO – speed ramps Saron – clerc i ymholi ymhellach.<br>d. RhO – giat mochyn a thyllau yn y lon yn Saron | |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau** | |
| 7. | **Is-bwyllgorau** | |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw:<br>Cyfri Siec:<br><br>Taliadau:<br>Bethan Williams – cyflog Rhagfyr a Ionawr – 2 @ £418.67<br>Cyllid y Wlad – 2 @ £98.40<br>Anfoneb Antur Nantlle – lluniau safle Wê<br>Gareth Griffith, twrnai – lein Bryngwyn<br>Zurich – yswiriant blynyddol<br><br>Penderfynwyd i roi hyd at £2500 ddwy waith y | <br>5051.73<br>185.84<br><br><br>837.34<br><br>196.80<br>29.97<br>331.00<br>1,447.73 |

| | | |
|---|---|---|
| | flwyddyn i gyfrif banc i'w gadw ar gyfer tirlunio a walio Mynwent Cefnfaes.<br><br>Praesept – angen trafodaeth. Penderfynwyd codi'r praesept o £1500 y flwyddyn. | |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>C13/1259/24/LL – Tanrallt, Rhostryfan – ty deulawr gyda pharcio yn nhy blaen y safle – problem parcio a draenio<br>Yn gyffredinol, hoffem pe bai modd i'r swyddogion wyrio fod y cynlluniau yn addas ac i scale. Mae'r cynlluniau a dderbynion yn ddiweddar yn anneglur.<br><br>C13/1303/24/LL – Llwyn, 2 Dinas Estate, Dinas – estyniad deulawr yn nhalcen y ty – dim gwrthwynebiad<br>C13/1177/24/LL – Cae Glas, Llanwnda – sied amaethyddol – dim gwrthwynebiad<br>C13/1159/24/YA – Gadlys, Llanwnda – sied amaethyddol – dim gwrthwynebiad<br>C13/1249/24/LL – 4 Tai Bodawen, Rhostryfan – estyniad – dim gwrthwynebiad<br><br>Canllaw cynllunio atodol – ynni gwynt ar y tir<br><br>Arwydd ar byst ger Waen Bant yn nodi fod y perchnogion wedi gwneud cais i gael pump carafan ar y tir. Aelodau wedi cael cwyn gan drigolion lleol am y cynlluniau. Yr holl aelodau o'r farn nad ydy'r safle yn addas oherwydd sawl rheswm gan gynnwys lleoliad; llwybr cyhoeddus yn croesi'r tir; culni'r ffordd; diffyg adnoddau megis siopau ger y safle fydd yn cynyddu'r traffig yn yr ardal; y cwlfert a'r broblem dwr rydym wedi'i gael ar y ffordd ger y safle dros y blynyddoedd. Hefyd mae trigolion lleol yn poeni fod cynllun o'r fath yn newid natur y pentref. | |
| 10. | **Gohebiaeth:**<br>a. Ymgynghoriaeth Gwynedd – ymateb o ran cwynion yn ymwneud a'r gridiau ar afon Gwyled. Datgan anfodlonrwydd y cyngor cymuned efo'r sefyllfa. Teimlo na fydd y mesuriadau yma yn ateb y broblem, a phe bai llifogydd eto yn difrodi tai yn y pentref, byddwn yn wynebu'r hen broblem, gan eich bod yn diystyru gwybodaeth leol a dealltwriaeth o gyrsiau dwr lleol.<br>b. Cylchgronnau<br>c. Llythyr gan Alun Ffred Jones yn son am arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri sydd ar gael i gofio'r rhyfel byd cyntaf | |
| 11. | **Materion mis nesa**<br>a) GLW -Rhiwen, Rhos Isaf - mwd a cherrig ar y lôn<br>b) ElJ – coeden wedi disgyn ar y lein – mynd i gael golwg arni<br>c) ElJ – potiau blodau<br>d) NW – parcio Penyffridd – lle parcio yn Beudy Sam?<br>e) TE – llwybr tu ol i Garej Dolydd, Cefn Hendre – giat wedi malu, angen giat mochyn newydd<br>f) GVT – LED dal ddim yn gweithio<br>g) GVT – gofyn i'r heddlu am chasio car bychan ar gyflymder ofnadwy, lot rhy agos i'r car blaen – 11eg Ionawr tua 12.30am<br>h) TE – wedi cael galwad ffon – survey ynglyn a'r heddlu, neb ar gael i'w wneud | |

| | |
|---|---|
| | yn y Gymraeg<br>i) NE – er gwybodaeth, wedi dechrau clirio mynwent Horeb.<br>j) NE – llwybr Glanrafon – weiren bigog wedi'i gadael a'i lapio ar y giat, peryglus iawn<br>k) NE – angen sgwennu llythyr i'r adran gynllunio. Raymond, Gwyndre wedi gwneud cais i gael creu mynedfa i gadw dwy garafan dros y gaeaf ar ei dir. Angen tegwch i bawb.<br>l) RhO – rhaglen y flwyddyn – ystyried mynd yn ol i Llanwnda<br>m) Hysbysfwrdd – cais i gael ei symud<br>n) Canolfan Llanwnda – cefnogi'r cais i gael arwyddion |
| | **Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm** |